**PWYLLGOR DEDDFAU** LEG 11-99(min)

**COFNODION**

**Dyddiad:** 23 Tachwedd 1999

**Amser:** 10.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

Michael German, Cadeirydd (Democratiaid Rhyddfrydol)

Nick Bourne (Ceidwadwyr)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru)

Carwyn Jones (Llafur)

Huw Lewis (Llafur)

Dai Lloyd (Plaid Cymru)

John Marek (Llafur)

Owen John Thomas (Plaid Cymru)

**Swyddogion**

John Turnbull Cynghorydd Cyfreithiol

Dylan Hughes Cynghorydd Cyfreithiol

Adrian Green Clerc y Pwyllgor

Gareth Brydon Dirprwy Glerc

**Ymddiheuriadau**

Lynne Neagle

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**LEG-10-99 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 1999 yn amodol ar y sylwadau canlynol:

Teimlai Nick Bourne y dylai pryderon y Pwyllgor ynghylch yr angen am raglen ddibynadwy o ddeddfwriaeth sydd ar ddod a'r defnydd cyson o'r weithdrefn Frys, fod wedi'u hadlewyrchu'n fwy grymus yn y cofnodion. Er bod y Pwyllgor yn gallu lleisio eu pryderon ynghylch y defnydd o'r weithdren Frys a'i heffaith ar y ddeddfwriaeth wedi hynny, cynghorodd Mr Turnbull fod angen bod yn ofalus wrth godi'r pwynt hwn gan nad oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor i wneud sylwadau ar benderfyniadau'r Cabinet i ddefnyddio'r weithdrefn Frys.

1.2 Cyfeiriodd y cadeirydd at y cyfarfod â'r Llywydd a Chymdeithas y Gyfraith ar 24 Tachwedd a gofynnwyd i Mr Hughes a oedd ganddo rywbeth pellach i'w ddweud ynghylch cyhoeddi deddfwriaeth y Cynulliad. Dywedodd Mr Hughes er nad oedd wedi derbyn unrhyw atebion ffurfiol, ei fod yn galonogol fod y ddau brif gwmni cyhoeddi wedi datgan ar lafar y byddent yn cyhoeddi deddfwriaeth y Cynulliad yn yr un ffordd â deddfwriaeth San Steffan gan amlaf. Yr oedd un o'r cwmnïau yn awyddus i dderbyn ymateb o'r Cynulliad.

1.3 Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 1.3 o'r cofnodion ynghylch y trefniadau i'r Aelodau weld fersiynau terfynol o'r holl Offerynnau Statudol. Nododd fod y Clerc wedi ail-edrych ar y mater er mwyn egluro goblygiadau'r gost. £1.80 oedd cost OS dwy dudalen ac nid oedd cyllideb cyhoeddi'r Llyfrgell yn ddigonol i ddarparu copïau unigol i bob Aelod o'r Pwyllgor. Mae Adran 199 (5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn nodi "*An Assembly Member shall be entitled to a single free copy of [any document that the Assembly publishes]).* Er hynny, nododd cyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Llyfrgell fod Offerynnau Statudol yn cael eu cyhoeddi gan Wasg ei Mawrhydi, Y Llyfrfa yn hytrach na'r Cynulliad, sy'n golygu nad oedd gan yr Aelodau yr hawl i gael copïau am ddim. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi cynnig rhoi adroddiadau cyson i'r Pwyllgor ynghylch y graddau y mae eu hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn fersiynau olaf pob deddfwriaeth a ystyriwyd ganddynt, gan dynnu sylw at unrhyw anghysonderau. Yna byddai'n dosbarthu llungopïau o'r Offerynnau Statudol perthnasol i Aelodau yn ogystal â'r adroddiadau hynny. Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig hwn, er nad oeddent am anghofio'r egwyddor y dylent gael copïau drwy hawl, a gofynnodd y Pwyllgor i'r Clerc ddosbarthu copi o'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan y Llyfrgell. **Camau i weithredu arnynt: Clerc**

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd yn ategu cais y Pwyllgor i gael gwybod am unrhyw benderfyniadau a wneir o dan Reol Sefydlog 22.51 (ii). Ychwanegodd y byddai'n cwrdd â'r Prif Ysgrifennydd maes o law ac y byddai'n codi materion eraill megis defnyddio'r weithdrefn frys, iaith niwtral o safbwynt gender a'r angen am raglen o ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cwrdd ag Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd i drafod cynigion i roi gwybod i Aelodau am ddeddfwriaeth y Cynulliad cyn iddo gael ei roi gerbron y Pwyllgor Busnes. Yr oedd yn ymddangos mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gael gwybodaeth gywir rhyw ddwy neu dair wythnos cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi gerbron y Pwyllgor.

2.3 Mae llythyr y Prif Ysgrifennydd at y Pwyllgor ynghylch iaith niwtral o safbwynt gender wedi'i anfon at Aelodau. Gofynnodd y Cadeirydd am farn Mr Turnbull. Dywedodd nad oedd angen absoliwt am iaith sy'n niwtral o safbwynt gender ym mhob achos, yn enwedig wrth wneud mân newidiadau i ddogfennau hirfaith. Cytunodd Carwyn Jones gan ychwanegu y gallai gymryd sawl blwyddyn cyn y byddai iaith sy'n niwtral o safbwynt gender a deunyddiau dwyieithog ar gael eu defnyddio ym mhob achos, er i John Marek deimlo fod hyn yn agwedd besimistaidd. Er hynny, mae'r egwyddorion wedi'u sefydlu,

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w hystyried gan y Pwyllgor Deddfau**

**LC18 Gorchymyn yr Ymgymerwyr Dr (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 1999**

3.1 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r Pwyllgor a baratowyd ar sail copi'r argraffwyr, ac eglurodd ei fod yn cynnwys llawer o gamgymeriadau ac y byddent wedi'u cywiro erbyn y fersiwn terfynol.

3.2 Ystyriodd y Pwyllgor sylwadau'r Cynghorydd Cyfreithiol. Teimlent fod y Gorchymyn wedi'i gyflwyno'n wael ac y dylai gael ei ail-ddrafftio a'i ail-gyflwyno. Cytunwyd bod gormod o ddiffygion i dynnu sylw'r Cynulliad ato o dan Reol Sefydlog 11.5 (v).

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i roi'r weithdrefn yn Rheol Sefydlog 11.4 ar waith. Mae'n nodi y dylai roi sylw arbennig i unrhyw Orchymyn perthnasol o'r Cynulliad neu unrhyw is-ddeddfwriaeth cyn adrodd yn ôl i'r Cynulliad, a rhaid i'r Cadeirydd hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y pwyllgor i wneud adroddiad o'r fath a rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar sut i fwrw ymlaen yng ngoleuni ymateb Peter Law. Bydd ganddo 14 diwrnod i ymateb. Bydd y Cadeirydd hefyd yn darparu llythyr esboniadol i'r Llywydd wrth gyflwyno adroddiad sy'n gofyn i'r Cynulliad roi sylw arbennig i fater o dan RhS 11.5, er mwyn gweithredu swyddogaethau'r Pwyllgor o'i gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r gorchymyn. **Camau i weithredu arnynt: Clerc**

**LC19 Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor i roi gwybod i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5

3.6 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchmyn hwn fel LC19 (Adroddiad).

**LC20 Gorchymyn Sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro 1999**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor i roi gwybod i'r Cynulliad nad oes angen iddo roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.9 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn hwn fel LC20 (Adroddiad).

**LC21 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 1999**

3.10 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.11 Cytunodd y Pwyllgor i roi gwybod i'r Cynulliad nad oes angen talu sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.12 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn hwn fel LC21 (Adroddiad).

**LC22 Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) a (Ffurflen Gais Gymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999**

3.13 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.14 Cytunodd y Pwyllgor i roi gwybod i'r Cynulliad nad oes angen talu sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.15 Amgaeir Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn hwn fel LC22 (Adroddiad).

**LC23 Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) a (Ffurflen a**

**Manylion Cymraeg) (Diwygio) (Cymru) 1999.**

3.16 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i’r Pwyllgor.

3.17 Cytunodd y Pwyllgor i roi gwybod i’r Cynulliad nad oes angen talu sylw arbennig i’r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5.

3.18 Amgaeir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y Gorchymyn hwn fel LC23 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw fusnes arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd iddo dderbyn llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau Addysg (Gwerthuso Athrawon Ysgol) (Cymru) 1999 (LC4). Yng ngoleuni hyn, yr oedd Mr Turnbull wedi paratoi cyfarwyddyd i’r Cadeirydd i weld a oedd yn Pwyllgor yn fodlon â’r adroddiad. Cytunodd y Pwyllgor y dylent anfon ateb cadarn ond yn amlinellu nad yw’n briodol i’r Pwyllgor ohebu’n fanwl, gan y rhoddwyd gwybod iddo’n ffurfiol.

**Camau i weithredu arnynt: Clerc**

4.2 Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw eitemau o ddeddfwriaeth i’r Pwyllgor eu trafod ar 30 Tachwedd. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 7 Rhagfyr 1999 am 10.30am. Disgwylir y bydd hyd at un ar bymtheg o Orchymynion i’r Pwyllgor eu hystyried yn y cyfarfod hwnnw.

**Papurau Cysylltiedig**

**LC19(Adroddiad)**

**LC20(Adroddiad)**

**LC21(Adroddiad)**

**LC22(Adroddiad)**

**LC23(Adroddiad)**